




Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Cyflwyno pryder am addasrwydd i ymarfer

Ffurflen i gyflogwyr

Ebrill 2017



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Ynglyn â'r ffurflen hon

Dyma'r wybodaeth sydd ei hangen arnom os ydych chi am fynegi pryderon ynglyn ag addasrwydd person cofrestredig i ymarfer. Gallwch argraffu'r ffurflen hon a'i chwblhau â llaw, neu ei gwblhau'n electronig a'i hanfon ar e-bost i'r Tîm Addasrwydd i Ymarfer yn **aiy@gofalcymdeithasol.cymru**

Ewch i'n gwefan **gofalcymdeithasol.cymru** i ddarllen 'Canllawiau ar gyfer cyflogwyr gofal cymdeithasol ar brosesau dysgu, atgyfeiriadau, ymchwiliadau ac addasrwydd i ymarfer' ac am fwy o fanylion ar y broses addasrwydd i ymarfer.

1. Manylion yr atgyfeiriwr

Enw	
Teitl swydd	
Enw'r sefydliad	
Cyfeiriad y sefydliad	
Rhif ffôn	
Cyfeiriad e-bost	

2. Y gweithiwr gofal cymdeithasol rydych chi'n mynegi pryder amdano

Rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl am y person rydych chi'n mynegi pryder amdano. Bydd hyn yn ein helpu i ddod o hyd iddo ar Gofrestr Gofal Cymdeithasol Cymru.

Enw'r person cofrestredig	
Teitl swydd	
Rôl person cofrestredig	
Rhif cofrestru (os yn hysbys)	
Dyddiad geni	
Cyfeiriad cartref person cofrestredig	

Cyfeiriad gwaith yr person cofrestredig (os yn wahanol i'r sefydliad)	
Manylion cyswllt y rheolwr llinell	
Statws cyflogaeth bresennol y person cofrestredig, e.e. wedi'i wahardd, wedi'i ddiswyddo, wedi symud i ddyletswyddau amgen	
Ydy'r person cofrestredig yn ymwybodol o'r honiadau ac unrhyw ymchwiliad?	
Ydy'r person cofrestredig yn ymwybodol iddo gael ei atgyfeirio at Ofal Cymdeithasol Cymru?	

3. Eich gweithredoedd

Ydych chi wedi rhoi gwybod am y mater hwn i unrhyw gorff arall, er enghraifft, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Adran Ddiogelu Awdurdod Lleol, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), corff rheoleiddio arall neu'r heddlu?

Os felly, rhowch y manylion cyswllt yn y blwch isod

4. Manylion yr atgyfeiriad

Er mwyn i wybodaeth fod yn gyfystyr ag atgyfeiriad mewn perthynas â Rheolau (Addasrwydd i Ymarfer) Gofal Cymdeithasol Cymru 2017, mae'n rhaid bod cwestiynau'n codi am addasrwydd y gweithiwr gofal cymdeithasol i aros ar y Gofrestr yn ddiamod.

Dim ond y canlynol y gallwn ymchwilio:

- honiadau am weithiwr gofal cymdeithasol sydd wedi'i gofrestru gyda ni
- gwybodaeth sy'n gyfystyr â honiad penodol mewn perthynas ag addasrwydd gweithiwr i ymarfer.

Ewch i'r wefan am ragor o wybodaeth am y gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer

gofalcymdeithasol.cymru

Rhowch fanylion eich atgyfeiriad isod. Os ydych chi angen mwy o le i ysgrifennu, atodwch wybodaeth ychwanegol ar wahân a chyfeiriwch y wybodaeth ym mhob blwch ar y ffurflen.

Ar ba ddyddiad(au) neu dros ba gyfnod y digwyddodd y digwyddiad(au)?

Ymhle y digwyddodd y digwyddiad(au)?

Ydych chi'n cynnal ymchwiliad?

Os felly, ym mha gyfnod mae'ch ymchwiliad?

Rhowch ddisgrifiad o'ch pryderon.

Efallai nad un digwyddiad penodol a gafwyd; efallai bod eich pryderon ynghylch sawl digwyddiad dros gyfnod o amser. Parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen

5. Dogfennau ategol

Oes gennych chi unrhyw ddogfennau neu ddeunyddiau i gefnogi eich atgyfeiriad?

Oes

Nac
Oes

Os oes, rhowch grynodedb isod a chynnwys copiâu o unrhyw ddogfennau ategol.

Math o wybodaeth/dogfennau

Math o wybodaeth/dogfennau sy'n ofynnol gan Gofal Cymdeithasol Cymru os ydynt ar gael

- A oes ymchwiliad diogelu ar y gweill
- Cofnodion cyfarfod diogelu
- Amserlen ar gyfer dod â'ch ymchwiliad i ben
- Adroddiad yr ymchwiliad
- Atodiadau i adroddiad yr ymchwiliad
- Datganiadau tystion
- Llythyrau disgyblu at yr person cofrestredig gan gynnwys llythyr o'r canlyniadau
- Dogfennau apêl a llythyr o'r canlyniad
- Unrhyw ymatebion rydych wedi'u cael gan yr person cofrestredig
 - disgrifiad swydd yr person cofrestredig
 - cofnodion hyfforddi yr person cofrestredig
- Cynllun gweithredu ar allu / Cynllun gwella
- Dychwelyd yn raddol fel rhan o'r cynllun gwaith
- Cwblhau asesiadau risg er mwyn galluogi person cofrestredig i ymarfer yn ddiogel
- Polisiâu cyflogaeth perthnasol

6. Deddf Diogelu Data 1998

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth a bydd data yr ydych chi'n ei roi ar y ffurflen hon yn cael ei phrosesu yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998. Y Rheolydd Data yw Gofal Cymdeithasol Cymru. Bydd data personol yr ydych chi'n ei roi yn cael ei brosesu at ddibenion cyflawni ein dyletswyddau statudol mewn perthynas â gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig.

Gellir datgelu'r data i unrhyw weithiwr gofal cymdeithasol a enwyd, neu a nodwyd fel arall, ei gyflogwr(wyr), ac unrhyw unigolyn arall a enwyd, neu a nodwyd fel arall, paneli Gofal Cymdeithasol Cymru, unrhyw gyrff rheoleiddio eraill, yr heddlu a sefydliadau tebyg yn y DU a gwledydd eraill.

Drwy lofnodi a chyflwyno'r ffurflen hon, rydych chi'n rhoi caniatâd i'r data personol gael ei brosesu, gan gynnwys data sensitif, yn y ffyrdd a ddisgrifir uchod.

Llofnod:

Dyddiad:

Enw mewn print bras:

Ar ôl i chi wirio cynnwys y ffurflen a'i llofnodi, anfonwch y ffurflen i'r:

Tim Addasrwydd i Ymarfer
Gofal Cymdeithasol Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Neu e-bostiwch **aiy@gofalcymdeithasol.cymru**

Os yw'r atgyfeiriad yn unol â Rheolau (Addasrwydd i Ymarfer) Gofal Cymdeithasol Cymru 2017, caiff ei ddyrannu i swyddog addasrwydd i ymarfer. Byddwch yn cael manylion y swyddog a byddant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am gynnydd yr achos bob dau fis.

Manylion cyswilt

Gofal Cymdeithasol Cymru

South Gate House

Wood Street

Caerdydd

CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444

Minicom: 029 2078 0680

E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru

gofalcymdeithasol.cymru



@GofCymdeithasol

© 2017 Gofal Cymdeithasol Cymru

ISBN:978-1-911463-46-7

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhychu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn system adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatad ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylai ymholiadau am atgynhychu y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras neu mewn fformatau eraill, os oes angen. Mae copïau Saesneg o'r ddogfen ar gael hefyd.